

## Capeli Cymru (D Huw Owen)

Mae'r Garn yn un o blith dros gant o gapeli sydd wedi eu cynnwys yn y gyfrol hon ddeniadol hon a gyhoeddwyd yn ddiweddar. Ceir ynddi grynodedb hwylus o hanes yr achos, manylion cyfredol a dau lun o'r capel.

Gan fod 6,200 o gapeli Anghydfurfiol yng Nghymru, rydym yn freintiedig iawn ein bod wedi ein cynnwys yn y gyfrol. Yn ei gyflwyniad dywed yr awdur, 'er mai adeiladwaith a phensaerniaeth oedd prif sail fy newis o gapeli, gobeithiaf i mi gyflwyno rhyw gip ar gyfoeth hanes a datblygiad y traddodiad Anghydfurfiol yng Nghymru, y cyfraniad arbennig i fywyd a diwylliant Cymru ac, mewn rhai achosion i dwf neu dranc yr iaith Gymraeg.'

Mae cynnwys y gyfrol hon yn profi nad cywir geiriau T. Rowland Hughes yn ei gerdd enwog i'r 'Blychau' o bell ffordd:

Nid ydynt hardd, eich hen addoldai llwm  
Pa ddwyllaw a'u lluniodd hwy  
yn flychau sgwâr, afrosgo, trwm  
yn foel, ddiramant, hyd y cwm.

Er ei fod yn amlwg yn ymwybodol o'r dirywiad mewn crefydd Anghydfurfiol yn y Gymru sydd ohoni, ychwanega'r awdur y sylw, 'Nid oes amheuaeth chwaith ynghylch brwdfrydedd, egni a phenderfyniad gweinidogion, swyddogion ac aelodau i oresgyn yr holl anawsterau a wynebir.'

Wrth i ninnau yn y Garn wynebu ar gyfnod newydd yn ein hanes gydag ymddeoliad y Gweinidog, hyderwn y bydd hyn yn wir am ein hymdrechion yma am lawer blwyddyn eto.

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn 12 Mawrth i:

Mr Dewi G Hughes

Mrs Marian B Hughes

Bod Hywel

14 Maes y Garn

(828026)

(828662)

dewighughes@lineone.net

marian\_hughes@btinternet.com

# Gair o'r Garn

Cylchlythyr Eglwys y Garn,

Bow Street

Rhif 20

[www.capelygarn.org](http://www.capelygarn.org)

Calan 2006



## Gweinidog

Parch R W Jones

Haddef

6 Maes Afallen

Bow Street

(01970 828006)

[gweinidog@capelygarn.org](mailto:gweinidog@capelygarn.org)

## Ysgrifennydd

Mr Eddie Jenkins

Eryl

Llandre

Bow Street

(01970 828147)

[ymholiadau@capelygarn.org](mailto:ymholiadau@capelygarn.org)

## Gair gan y Gweinidog

A dyma ni ar fin camu i Ionawr 2006, a phawb yn ymwybodol o dreigladau amser. Ond hefyd o bosibl yn synhwyro'r modd yr ydym yn rhannu amser yn eiliadau a munudau, wythnosau a misoedd a blynddoedd. Amser rhoi calendr newydd i fyny ar y wal a ninnau'n gweithio wedyn yn ôl ei reolau.

Ond er ein bod i gyd yn gorfod gweithio o fewn y fframwaith yma, eto mae yna weithio yn ôl calendr arall. Meddyliwch am fyd addysg. Mae eu calendr hwy yn rhedeg o Fedi i Fedi, oherwydd yn y mis yna y mae dechrau eu blwyddyn hwy. Cymerwch y Dreth Incwm. O ddechrau Ebrill y mae eu blwyddyn hwy yn cychwyn!

I mi'n bersonol, mae dau galendr arall ar waith o fewn y flwyddyn. Mae un yn dechrau ar y cyntaf o Orffennaf: y rheswm am hyn yw mai dyna'r diwrnod y bu i mi gychwyn ar fy ngweinidogaeth. Yr ail ddyddiad yw Ebrill 1af am mai dyna'r dyddiad y deuthum yn Weinidog i'r Ofalaeth hon, a hynny yn y flwyddyn 1994. Fel y gŵyr y rhan fwyaf ohonoch, ddiwedd Mawrth fe fyddaf yn ymddeol ac fe fyddwn yn symud o'r ardal. I ble'r aeth deuddeg mlynedd? Er y caf gyfle yn y dyfodol i wneud hyn yn llawnach, hoffwn i ddim i'r cyfle fynd heibio heb fy mod yn diolch, ar ran Rhian a minnau, am y caredigrwydd mawr a'r cyfeillgarwch yr ydym wedi eu derbyn yn eich plith. Mae'r Pwyllgor Bugeiliol wedi cychwyn ar ei waith o chwilio am olynydd i mi, a charwn ddymuno pob bendith a llwyddiant iddo yn ei dasg anodd.

Mae'r adnoddau gennych fel Gofalaeth i gario'r gwaith ymlaen, ac efallai y bydd fy ymadawiad yn sbardun i ambell un sydd wedi cilio wynebu eto ar y cyfrifoldeb o fod yn Aelod Eglwysig.

Dymunaf i chwi fendith Duw a phob rhwyddineb yn y dyfodol.

Yn gywir

*Robert W Jones (Gweinidog)*

Un o gyfrolau mwyaf gwerthfawr y flwyddyn yw *Mab y Pregethwr*, hunangofiant diddorol ein cyfaill Cynog Dafis, a dyma ambell sylw da: 'Mi ges i'r fraint o weld rhin yr efengyl Gristnogol yn cynysgaeddu bywyd 'yn rhieni, gan roi iddyn nhw gysur, doethineb, cyfoeth ysbrydol ac ymroddiad i wasanaethu eraill ... Ymateb i'r alwad i fod yn was y mae'r Cristion, a'r gweinidog yn arbennig. Mae hunanymffrost yn gwbl anghydnaws â'r rôl y gofynnir iddo fe ei chyflawni ... Llinos yn fwy na neb a'n llusgodd i'n rhydd o hualau uniongredd crefyddol'.

W. J. Edwards

\*\*\*\*\*  
\*  
\* **Chwirydd y Garn** \*  
\*  
\* Dymuna pwyllgor Chwirydd y Garn ddiolch i'r rhai fu'n \*  
\* helpu ar y stondinau ac yn y gegin ddiwrnod y Ffair y \*  
\* Capel ar 26 Tachwedd. \*  
\*  
\* Hefyd, diolch i'r llu cymwynaswyr a ffrindiau a gyfrannodd \*  
\* mewn nwyddau ac arian. \*  
\*  
\* Bu'r Ffair yn un llwyddiannus a gwnaed elw o £1404.75. \*  
\*  
\* Trosglwyddir swm ohono i gronfa'r Eglwys maes o law. \*  
\*  
\* Sylwer y bydd cyfarfodydd y Chwirydd yn dechrau am \*  
\* 2 o'r gloch dros fisoedd y gaeaf, yn lle'r 2.30 o'r gloch \*  
\* arferol. \*  
\*  
\*\*\*\*\*

~~~~~  
**Cyngerdd**  
**gan**  
**Gôr Merched Cana**  
Arweinydd: Delyth Medi  
yng Nghapel y Garn  
Nos Sadwrn, 1 Ebrill 2006  
~~~~~

## Cynhaeaf 2005

Gwelais y geiriau yma y tu allan i eglwys:

Pan gefaist dy fedyddio, daeth dy fam â thi yma.

Pan briodaist, daeth dy bartner â thi yma.

Pan fyddi farw, daw dy ffrindiau â thi yma.

Beth am drïo dod yma dy hun ambell dro?

'Yr oedd Thomas Charles â'i fryd ar adeiladu yng Nghymru wareiddiad wedi ei wreiddio yn yr Ysgrythur.' (R Tudur Jones)

'Peidiwch byth â rhoi atalnod llawn lle mewn Duw wedi gosod coma.' (Gracie Allen)

'Am lawer gormod o amser buom yn meddwl am fynd i'r eglwys yn hytrach na bod yn eglwys ...Dyw bywyd heb ei rannu ddim yn werth ei fyw, fedr dyn ddim byw heb gymdeithas ...Mae galw arnom fel Cristnogion i fod yn gwbl hyderus ac eofn yn ein tystiolaeth.' (Gareth Morgan Jones)

'Y mae'r gorffennol ymhell oddi wrthym, y mae'n haws gweld ei ragoriaethau na'i ffaelectedau ...Y mae iaith lac yn ddigon aml yn arwydd o feddwl llac.' (R T Jenkins)

'Peidiwch â chaethiwo Iesu yn eich "playpens" enwadol, traddodiadol ac athrawiaethol. Gadewch iddo gael cyfle i dyfu.' (J Gwilym Jones)

'Nid mynd i Emaus ond o Emaus a ddylem. Rydym yn cerdded ar yr un ffordd â Iesu ond ddim i'r un cyfeiriad.' (Elfed ap Nefydd Roberts)

### Rhyfel

Miliynau o groesau

Yw cost rhyfel o hyd,

Ond un groes yn unig

Ddaw â heddwch i'r byd. (Ifan Roberts, Llanuwchllyn)

Cynhelir gwylnos dan arweiniad y Bugail nos Sadwrn, 31 Rhagfyr 2005 am 11.30 o'r gloch.

Dewch i groesawu'r flwyddyn newydd mewn ysbryd o fyfyrdod ac addoliad.



### Ionawr

- 1 Parch Elwyn Pryse  
Bugail
- 4 Cyfarfod Chwirydd y Garn am 2 o'r gloch  
Tegwyn Jones – 'Hen arferion y Flwyddyn Newydd'
- 6 Cyfarfod Gweddi Dechrau'r Flwyddyn am 7 o'r gloch
- 8 Dr Rhidian Griffiths
- 11 Grŵp Help Llaw yn ailgychwyn am 2.30 o'r gloch
- 15 Bugail (Oedfa gymun yn y bore)
- 16 Pwyllgor Swyddogion am 7 o'r gloch
- 20 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch  
'Yr Hyn Rwy'n Gofio' – aelodau ac eraill
- 22 Oedfa i'w threfnu  
Bugail
- 29 Parch Pryderi Llwyd Jones

## ***Tysteb i'r Parchedig R W a Mrs Rhian Jones***

Bwriedir cyflwyno tysteb i ddangos ein gwerthfawrogiad o weinidogaeth ein Bugail ar achlysur ei ymddeoliad ddiwedd Mawrth 2006.

Bydd swyddogion y Garn yn ymweld â'r aelodau i dderbyn eich rhoddion yn gynnar yn y flwyddyn newydd, neu, os dymunwch, gallwch gyflwyno eich rhoddion i Mrs Mary Thomas, trysorydd yr eglwys, erbyn diwedd Chwefror.

## ***Pwyllgor Bugeiliol***

Bore Sul, 13 Tachwedd, pleidleisiodd aelodau eglwysi'r Ofalaeth i symud ymlaen i alw gweinidiog i olynu'r Parch R W Jones, a fydd yn ymddeol ddiwedd Mawrth 2006. Derbyniodd eglwys Capel Seion hefyd y gwahoddiad i ymuno â'r Ofalaeth.

Y cam cyntaf yn y broses oedd ffurfio Pwyllgor Bugeiliol, sy'n cynnwys holl flaenoriaid yr eglwysi ynghyd â dau gynrychiolydd o bob eglwys. Etholwyd Mrs Llinos Dafis a Mr Wynne Melville Jones yn gynrychiolwyr y Garn.

Yng nghyfarfod cyntaf y pwyllgor, etholwyd y swyddogion canlynol:

Llywydd: Mr D Bryn Lloyd

Is-lywydd: Mr John Leeding, Rehoboth

Ysgrifennydd: Mrs Marian B Hughes

Sefydlwyd dau isbwyllgor: un i ystyried patrwm y Suliau (ysgrifenyddion y cyhoeddiadau) a'r llall i drafod darparu mans a chydabyddiaeth i'r Bugail (trysoryddion yr eglwysi).

## ***Be sy'n digwydd***

Yn ogystal â bod yn Ysgrifennydd Ariannol, Mr D Bryn Lloyd sydd wedi cymryd gofal o bob adeilad sydd yn perthyn i'r Garn ers blynyddoedd lawer. Fel y gŵyr pawb sydd yn berchen tŷ, mae rhywbeth i'w wneud ar adeilad o hyd. I ysgafnhau'r baich rhywfaint mae Mr Erddyn James wedi derbyn y cyfrifoldeb o ofalu am Bethlehem. Ef fu'n bennaf cyfrifol am ailbeintio'r adeilad eleni, fel y cofiwch. Y gwelliant nesaf i amwynderau'r adeilad fydd golau allan yn y cefn – llusern i'n traed wrth i ni fynd i'n cerbydau!

Mae'r gwaith o addasu'r Garn i fod yn fwy hwylus i gadeiriau olwyn hefyd ar droed. Y tu fewn mae'r gwaith wedi ei wneud fel y gellir tynnu un o'r corau blaen allan ar fyr rybudd i wneud lle i gadeiriau olwyn. Mor gelfydd yw'r gwaith a wnaed gan Mr Rees Thomas fel bod llawer ddim yn ymwybodol o'r addasiad.

Y tu allan bwriedir hwyluso dod â chadeiriau olwyn o'r maes parcio i flaen y capel ac oddi yno i'r festri a'r "lle chwech". CADW sydd yn ein cadw ni yn ôl rhywfaint. (Tybed ai dyna pam y'i gelwir yn CADW!)

Mae canmoliaeth i'n gwefan [www.capelygarn.org](http://www.capelygarn.org) yn dod o lawer cyfeiriad. Cafwyd ymateb i neges y gweinidog ar e-bost o'r Unol Daleithiau hyd yn oed. Mae'r newyddion diweddaraf am ddigwyddiadau yn y Garn yma hefyd – ynghyd â gwybodaeth frys am yr hyn na fydd yn digwydd ar adegau! Os hoffech gyfarch, dymuno yn dda, neu longyfarch rhywun ar y safle, cysylltwch â Marian Beech Hughes. Mae Marian yn gofyn hefyd am luniau o ddigwyddiadau cysylltiedig â'r eglwys i'w rhoi yn yr oriel.

## **Grŵp Help Llaw**

Daeth y tymor i ben ddiwedd Tachwedd. Bu'r festri ar agor yn gyson ar brynhawniau Mercher, ac ar wahân i fwynhau cwmni ein gilydd dros baned o de bu cryn weithgarwch hefyd.

Paratowyd hanner cant o focsys a chasglwyd £163 o nawdd ar gyfer Operation Christmas Child 2005. Cafwyd ymateb hael i apêl Dr Naujokaitienei o Pastuva, Lithuania, am ddillad gwely, llenni, teganau meddal, ac ati. Roedd cyfraniad Ysgol Rhydypennau o 237 o barau o sgidiau a sgidiau glas mewn cyflwr ardderchog yn goron ar y cyfan.

Cefnogwyd Tŷ Gobaith trwy archebu cardiau Nadolig, a chasglwyd dros bymtheng mil o stampiau er budd OXFAM.

Cynhaliwyd Stodin Masnach Deg ar ddau achlysur ym mis Rhagfyr.

Diolch i bawb yn y capel ac i gyfeillion yn y gymuned am eu cefnogaeth.

Bydd Help Llaw yn ailgychwyn brynhawn Mercher, 11 Ionawr 2006 a'r project cyntaf fydd casglu 'Bwyd i Bosnia', yn ôl ein harfer erbyn hyn.

Byddwn yn parhau gyda'n cymorth i Lithuania.

Shân Hayward (828268) a Bethan Jones (611502)

## **Chwefror**

- 1 Cyfarfod Chwiorydd y Garn am 2 o'r gloch  
Mwy o'r Garn ar y We – Nigel Callaghan, Technoleg Taliesin
- 5 Parch J E Wynne Davies
- 12 Parch T J Irfon Evans
- 19 Bugail (Oedfa gymun yn yr hwyr)
- 24 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch  
Mr Charles Arch, 'Atgofion Byw dan y Bwa'
- 26 Parch Pryderi Llwyd Jones  
Bugail – oedfa'r hwyr ym Methlehem


## **Mawrth**

- 1 Cyfarfod Chwiorydd y Garn  
Panel dan gadeiryddiaeth y Fon Alwen Morgan
- 5 Parch M J Morris
- 12 Dr Terry Edwards
- 17 Cymdeithas Lenyddol y Garn am 7.30 o'r gloch  
Noson i ddweud, 'So long, Bob'
- 19 Bugail (Oedfa gymun yn y bore)
- 24 Noson i gyflwyno tysteb i'r Parch R W a Mrs Rhian Jones  
yng Nghapel y Garn am 7 o'r gloch
- 26 Parch J Pinion Jones  
Bugail

## **Myfyrdod**

Darllen y diwrnod o'r blaen am ddau yn sgwrsio; trodd y sgwrs i gyfeiriad problemau'r byd ac meddai un, gan wybod bod y llall yn gapelwr selog, 'Mae hi'n anodd iawn, yn wyneb problemau ac amgylchiadau dyrys y byd, credu bod yna Dduw!' Mewn ateb, fe gyfeiriwyd yr amheuur at y wyrth o ddaioni sydd yn y byd, y daioni hwnnw sydd yn cyffwrdd bywyd yn gyffredinol, a'n bywydau ninnau yn bersonol, y cariad hwnnw sy'n deillio o gariad Duw a'r cariad sy'n amhosibl ar wahân i gariad Duw. A pharhad cariad mewn byd o ddioddefaint sy'n cyfeirio rhywun at Dduw, nid presenoldeb drygioni sy'n ceisio gwadu ei fodolaeth.

Rai blynyddoedd yn ôl fe ddechreuwyd papur newydd yn America a oedd yn cofnodi newyddion da yn unig. Byr fu ei barhad! Rywsut neu'i gilydd, mae i'r drwg apêl a'r drwg yn aml a erys ar len y cof. Mae hi mor hawdd, felly, edrych yn ôl ar y flwyddyn ddiwethaf, neu hyd yn oed ar fywyd i gyd, a gweld dim na chofio dim ond y gwael a'r drwg.



Mae drygioni yn realiti! Ond mae daioni yr un mor real! A fedrwn ni ddim cerdded drwy hyn o fyd heb ddod wyneb yn wyneb â realiti daioni hefyd. Ble bynnag y byddwn yn 2006, fe ganfyddwn ddaioni. Fe fydd yno, yn ffrwydro yn gariad o'n cwmpas yn y manau mwyaf annisgwyl, hyd nes y daw'r dydd—sydd wedi ei addo i ddilynwyr Iesu—pan fydd daioni'n gorchfygu.

Gwyddai'r Salmydd am ei 'glyn cysgod angau', ond gwyddai hefyd am 'wialen a ffon' ffeindrwydd a charedigrwydd yn gwarchod, am ffiol lawn ac am 'daioni a thrugaredd a'm canlynant holl ddyddiau fy mywyd'. Dyma'r gred sy'n cynnal mewn byd sy'n newid ac sy'n cadw mewn amgylchiadau anodd.

Nefol Dad, er gwaetha'n blinder  
pan fo'r daith yn siomi'n bryd,  
ninnau'n amau dy ddaioni  
ac yn credu'n hofnau i gyd,  
dyro brofi  
hedd dy gariad, doed a ddel.

### ***Cartref Tregerddan***

Diolch o galon i'r Parch R W Jones, blaenoriaid, aelodau a phlant ysgol Sul yr eglwys am eu parodrwydd i gynnal gwasanaethau yn Nhregerddan yn ystod y flwyddyn. Gwerthfawrogir eich ymroddiad a'ch cyfraniad yn fawr iawn.

Pob dymuniad da,  
Alwen